

Ar ddydd Mawrth, 17 Tachwedd 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm

**PRESENNOL:** Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs E Davies; Mrs G Price; Mrs K Walker; D Sheppard; DM Hughes; T Davies; M Evans; D R Morgan a'r cler

- 2619** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng D Jones a T Lewis
- 2620** **Materion Personol:** Cytunwyd i ysgrifennu at Bwyllgor PATRASA i'w llongyfarch ar y gwaith ardderchog a wnaed ar y Cae Chwarae'n ddiweddar
- 2621** **Datgan Diddordeb Personol/Rhagfarnol:** Dim un
- 2622** **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2009 fel cofnod cywir o'r Cyfarfod. Trafodwyd y materion oedd yn codi o'r Cofnodion hynny:
- Cofnod 2604 Bylbiau Cennin Pedr:** Cadarnhawyd bod y bylbiau a dderbyniwyd gan Gwmni Bylbiau Cymru, Caerdydd wedi'u plannu ledled y gymuned gan y Cyngor.
- Cofnod 2604 Derbyniad Band Eang:** Mewn ymateb ynghylch y gwasanaeth Band Eang yn ardal Cwmsymlog, rhoddodd Elin Jones AC fanylion cynllun newydd sy'n cael ei brofi gan BT all arwain at ddarparu band eang mewn ardaloedd sy'n methu â'i dderbyn ar hyn o bryd. PENDERFYNWYD anfon copi o'r wybodaeth ymlaen i Dr C King.
- Cofnod 2606 Gwasanaeth Sul y Cofio 2009:** Trafodwyd manylion y Gwasanaeth. Cytunwyd i gael mwy o bobl i rannu a chasglu'r taflenni yn y dyfodol. Mynegwyd diolch i'r Parch Livingstone am arwain y Gwasanaeth, yr Heddwes Cymunedol Hefin Jones am reoli'r traffig ac i Rhun am chwarae'r biwgl. Ymholiadau i'w gwneud ynghylch yr adeg briodol i fynd â'r torchau o'r Gofeb.
- 2623** **Bwriad y Cyngor i fabwysiadu Cynllun yr Iaith Gymraeg:**  
Nod Cynllun yr Iaith Gymraeg yw rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.  
Amlinellodd y Cadeirydd y cynllun ynghyd â chymau gweithredu'r Cyngor ar gyfer gweithredu, hyrwyddo, monitro a chyhoeddi'r cynllun.  
PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun a luniwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac arwyddo a dychwelyd y ddogfen gan gytuno i weithredu'n unol â'i gorchmynion.
- 2624** **Y Gofeb Rhyfel, Sgwâr Penrhyncoch:**  
Ar ddydd Sul, 1af Tachwedd 2009, gwnaed difrod i reiliau'r Gofeb Rhyfel o ganlyniad i ddamwain ffordd. Cafwyd manylion yswiriant y gyrrwr gan yr Heddlu a hysbyswyd yswirwyr y Cyngor, Allianz Plc. Disgwylir amcangyfrifon ar gyfer trwsio'r difrod.  
Cyflwynwyd cynnig i symud y Gofeb i safle cyfagos ond ni chafodd y cynnig ei basio.  
PENDERFYNWYD gweld a ellir gwneud unrhyw beth arall i wella diogelwch y rheiliau.
- 2625** **Adroddiadau Cyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**  
**Cyfarfod Airtricity Talybont – 27.10.09:** Adroddodd y Cyng.K Walker fod trafodaethau wedi cymryd lle ar ddulliau posib o ddsbarthu arian er budd cymunedau, os caiff y cynllun ei dderbyn.  
**Sesiwn Hyfforddiant Un Llais Cymru – Aberaeron 04.11.09:** Rhoddodd y Cyng. R Owen a T Davies adroddiad ar y cyd ar yr hyfforddiant a dderbyniwyd.
- Derbyniwyd ac ystyriwyd y dogfennau/ohebiaeth ganlynol:**
- 2626** **Cynllun Plismona Heddlu Dyfed Powys 2010/2013:** Cais am dair blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer Plismona. Y rhain oedd: Heddlu Gweladwy; Heddlu Hygyrch; Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- 2627** **Ffordd Annormal** Hysbysiad gan Airtricity y bydd ffordd annormal yn cael ei threialu o Abertawe i Ffwrnais ar 25/26 Tachwedd.
- 2628** **Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion – Trefeurig:**  
**1. Grwpio Aneddiadau:** Gwahoddwyd barn ar y posibilrwydd o gynnwys Bontgoch ar y rhestr o aneddiadau sy'n gysylltiedig â Chanolfan Gwasanaethau Gwledig Penrhyncoch.  
PENDERFYNWYD ymateb nad oes gan y Cyngor farn bendant ar y mater hwn ac awgrymu bod trigolion Bontgoch yn cael y cyfle i ddweud beth fyddai orau ganddynt.

## **Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (parhad)**

**2. Safleoedd Posib:** Dosbarthwyd mapiau'n dangos safleoedd posib ar gyfer eu datblygu ym Mhenrhyncoch a'r drefn bosib mewn perthynas â rhoi caniatâd cynllunio.

PENDERFYNWYD datgan y byddai'n well gan y Cyngor ddatblygu i'r gorllewin o'r pentref er mwyn lleihau'r traffig ychwanegol trwy ganol y pentref lle mae'r briffordd yn gul iawn a lle mae'r diffyg llwybr troed yn codi pryder ynghylch diogelwch cerddwyr.

### **Materion Ariannol**

#### **2629 Archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 2009 – Hysbysiad ynghylch Cwblhau'r**

**Archwiliad:** Derbyniwyd hysbysiad gan yr archwilyr allanol, BDO LLP bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Ni fydd unrhyw faterion yn codi o'r Archwiliad.

Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol i'r Cyngor a chafodd ei chymeradwyo a'i derbyn.

Mae Hysbysiaidau Dwyieithog ynghylch Cwblhau'r Archwiliad yn cael eu harddangos yn lleol am 14 diwrnod ac maent yn nodi y gellir gweld y Ffurflen Flynyddol trwy wneud apwyntiad gyda'r clerc.

**2630 Power Systems:** Taliad fforddfraint 2009: £9.19 wedi'i gredydu i Gyfrif Cymunedol HSBC 30/10/09

**2631 Balans Cyfrif Cymunedol HSBC 13/11/09: £1,202.47** (taflen 302)

**2632 Modiwl 2 Rhaglen Hyfforddiant ULIC - Ion 2010:** Dim ymgeiswyr

**2633 Cyllideb y Cyngor 2009/10 - Gwariant Cyfalaf (£1,500):** Derbyniwyd dyfynbris gan Greenbarnes Ltd am 2 hysbysfwrdd coed synthetig 660mm x 848mm gydag ategolion a phecyn gosod £1,156.38 + TAW £173.46: Cyfanswm £1,329.

PENDERFYNWYD archebu'r ddau fwrdd: un ar gyfer Bancydarren ac un ar gyfer Salem

### **Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:**

**2634** Siec 100941 wedi'i chanslo. Rhif 100949 wedi'i dosbarthu yn ei lle

**2635 BDO LLP - Ffi archwiliad allanol 2008/09 - £135 + TAW £20.25: £155.25** siec 100942

**2636 Greenbarnes – Cloeon/dolenni Hysbysfyrddau - £37.60 + TAW £5.64: £43.24** siec 943

**2637 GDYT – hurio ystafell ar gyfer Cyfarfod mis Hydref £10** siec 944

**2638 Cyng R Owen – teithio i Gyfarfod 8/10/09: £20.04** siec 945

**2639 Cyng DR Morgan – teithio i Gyfarfod 10/10/09: £19.53** siec 946

**2640 Apêl Pabi Coch y Lleng Prydeinig 2009 : £25** siec 947

**2641 Cyng K Walker – teithio i Gyfarfodydd 13/10/09 a 27/10/09: £17.03** siec 948

**2642 L Griffiths – cyfieithiadau Hydref 2009: £59.40** siec 949

### **Materion Cynllunio:**

**2643 A070028** Tir ym Mhenybanc – creu dau bwynt mynediad amaethyddol: Gwrthodwyd

**2644 A090769: Cais am annedd ar Lain 2, Tir ger Glanseilo, P/coch:**

Doedd dim gwrthwynebiad i'r cynllun ond mynegwyd y farn bod hwn yn dŷ mawr os ydyw i'w osod yn ymyl tai fforddiadwy. Byddai gwrych i guddio'r ystâd o'r briffordd yn sicrhau unffurfiaeth.

**2645 Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Ysgol Trefeurig am 7.00pm ar ddydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2009**

**2646 Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:**

Gwrych wedi gordyfu ger y mynediad i'r Cae Chwarae, Penrhyncoch gan guddio golau'r llwybr troed.

Arwydd Penrhyncoch ar goll ger Bryntirion, Penrhyncoch

Llawer o ddŵr allan ar y ffordd ger yr Hen Ficerdy, Penrhyncoch ac ar y ffordd rhwng y fan honno ag IBERS ac ar hyd ffordd Salem.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm.

